

CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 27 Ionawr, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd I.R. Buckley (Is-Gadeirydd yn y Gadair); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, J.M. Norman a J. Protheroe.

Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol: R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg), L. Newton (Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro), a'r Cynghorydd C. Hawkins (Cynrychiolydd Cynghorwyr Tref a Chymuned)

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

AGENDA ITEM 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorwyr R.M. Birch (Cadeirydd), A.M. Collins a N.J. Wood.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

CYTUNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. RHAGLEN AIL-LUNIO: CRYFHAU CYMUNEDAU - YMATEB I ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU AR DRECHU TLODI A GWAITH TRYDYDD SECTOR (CYF) –

CYTUNWYD – Y dylid nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion y manylwyd arnynt yn adroddiadau Cwmpas sydd ynghlwm yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU
GWIRFODDOL MORGANNWG (GGM) 2023/24 (SG) –

CYTUNWYD – Y dylid nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau
Gwirfoddol Morgannwg 2023/24.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thelerau'r Weithred Grant rhwng Cyngor Bro
Morgannwg a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg.

EITEM RHAGLEN 6. MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI'I BENDERFYNU YN
FRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi
penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

EITEM AGENDA 6(i) PROSIECT GWIRFODDOLI CELT+ (SG) –
**(Mater y mae'r Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys oherwydd yr
angen i ganiatáu i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad mewn modd amserol)**

CYTUNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a gwaith y Prosiect CELT+
(Connect Engage Learn Transform).

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.